

Papur y Bwrdd i'w nodi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodion Cyfarfod o'r Bwrdd, 24 Ionawr 2020

Yn bresennol:

Shan Morgan
Ellen Donovan
Ann Keane
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Andrew Goodall
Tracey Burke
Andrew Slade
Des Clifford
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Andrew Jeffreys
Helen Lentle

Yn mynychu:

Charlie Thomas
Kate Lloyd Jones
Dylan Hughes
Bethan Griffiths
Jeremy Evas
Yvonne Pawlin

Yn arsylwi:

Tina Jones

Ysgrifenyddiaeth:

Charmain Watts

Ymddiheuriadau:

Dim

1. Croeso

- 1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i gyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru.

2. Datblygiadau Gwleidyddol/Ymadael â'r UE

- 2.1 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ddiweddariad i'r Bwrdd ar y datblygiadau gwleidyddol diweddar, gan gynnwys ei chyfarfodydd yn Llundain.
- 2.2 Cyfeiriodd Des Clifford at *Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Blaenoriaethau Negodi i Gymru* a gyhoeddwyd yr wythnos hon.
- 2.3 Mae'r ddogfen yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cam nesaf yn y trafodaethau â'r UE sy'n seiliedig ar y Datganiad Gwleidyddol a gyhoeddwyd, ynghyd â'r Cytundeb Ymadael diwygiedig, yn yr hydref y llynedd.

3. Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol - Gwybodaeth ar gyfer y sesiwn herio

- 3.1 Mynychodd Charlie Thomas a Kate Lloyd Jones y cyfarfod er mwyn darparu gwybodaeth am y Rhaglen Ddeddfwriaethol a fydd yn llywio'r gwaith yn Sesiwn Herio gyntaf y Cyfarwyddwyr Anweithredol ar 4 Chwefror.
- 3.2 Trafododd y Bwrdd y sesiynau herio a chytuno ei bod yn bwysig gwahodd y rhai cywir i fynychu'r sesiynau. Cynigiodd y Bwrdd y dylid cynnal cyfarfodydd briffio ychwanegol rhwng y Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Tîm Rhaglen Ddeddfwriaethol, a Helen Lentle a Dylan Hughes.
- 3.3 Amlinellodd Tracey Burke y broses o gyflawni Biliau gan nodi'r anawsterau a allai godi gyda phob cam. Pwysleisiodd bwysigrwydd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r camau cyn cyflwyno Bil, a'r tasgau angenrheidiol i weithredu Deddf ar ôl iddi dderbyn y Cydsyniad Brenhinol.

CAM GWEITHREDU 1: Anfon rhestr o'r rhai a fydd yn mynychu'r sesiwn herio at y Cyfarwyddwyr Anweithredol i'w hadolygu.

CAM GWEITHREDU 2: Trefnu cyfarfod briffio rhwng y Cyfarwyddwyr Anweithredol a thîm y Rhaglen Ddeddfwriaethol, Helen Lentle a Dylan Hughes.

3.4 Cynghorodd yr Ysgrifennydd Parhaol y gallai ail sesiwn herio ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol fod o fudd.

CAM GWEITHREDU 3: Ar ôl y sesiwn herio gyntaf ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol, ystyried a fyddai ail sesiwn o fudd.

3.5 Cytunodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol ei bod yn bwysig eu bod yn deall sut beth fyddai llwyddiant a gwnaethant gynnig y dylent roi adborth i'r Ysgrifennydd Parhaol ar sut y gwnaethant ychwanegu gwerth at y broses.

CAM GWEITHREDU 4: Y Cyfarwyddwyr Anweithredol i roi adborth i'r Ysgrifennydd Parhaol ar ganlyniadau'r sesiynau herio ac ar sut y gwnaethant ychwanegu gwerth at y broses.

4. Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg

- 4.1** Cyflwynodd Dylan Hughes a Bethan Griffiths y strategaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Rhoesant wybod bod y papur yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y sefydliad, nod tymor byrrach ac amcanion ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025.
- 4.2** Croesawodd y Bwrdd y papur a'r modd roedd y gwaith yn mynd rhagddo. Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r tîm am eu holl ymdrechion wrth symud ymlaen i'r cam nesaf.
- 4.3** Rhoddodd Jeremy Evas o Is-adran y Gymraeg gyflwyniad ar Strategaeth Eiriol y Gymraeg; Golwg ar Ymddygiad. Diolchodd y Bwrdd i Jeremy Evas am ei gyfraniad gan nodi bod y cyflwyniad yn un diddorol dros ben ac yn enwedig felly'r wybodaeth dreiddgar ynglŷn ag ymddygiad.

5. Adroddiad Cyllid

5.1 Cyflwynodd Gawain Evans adroddiad am y cyfnod rhwng 1 Ebrill ac 31 Rhagfyr 2019 (mis 9). Mae'n cynnwys ffigurau alldro a ragwelir yn erbyn cyllideb 2019-20 sef Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 9 Gorffennaf.

5.2 Roedd y trafodaethau pellach yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Rhagolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn cyfredol
- Y gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) gyfredol
- Cronfa wrth gefn DEL sydd heb ei dyrannu

5.3 Nododd y Bwrdd hefyd fod proses newydd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n caniatáu i'r sefydliad broffilio'n fwy effeithiol drwy gydol y flwyddyn.

6. Amlinelliad o'r Strategaeth Pobl

6.1 Rhoddodd Natalie Pearson ac Yvonne Pawlin ddiweddariad ar sut y byddai modd ymgysylltu'n well â'r sefydliad er mwyn datblygu Strategaeth Pobl a'r Gweithlu 2020-25, a chreu gwasanaeth sifil hyderus, medrus a chadarn ar gyfer y dyfodol.

6.2 Cyflwynwyd gwybodaeth yn canolbwyntio ar:

- Sut i gysoni'r strategaeth â blaenoriaethau a phwrpas
- Egwyddorion a thargedau ar gyfer gwasanaeth sifil sy'n perfformio'n dda
- Yr hyn rydym yn ceisio'i gyflawni
- Ymgysylltu ac amserlen
- Sut beth fyddai canlyniad da

6.3 Eglurodd Natalie y byddai'r Adolygiad Sylfaenol, ynghyd ag ymgyrch ddwys bythefnos o hyd yn ymgysylltu â staff er mwyn casglu barn, profiadau, a syniadau ar hyd a lled Llywodraeth Cymru, yn cyfrannu at y Strategaeth Pobl. Bydd yr adborth o'r arolwg pobl hefyd yn allweddol ar gyfer datblygu'r strategaeth.

7. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol

- 7.1** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol wybod i'r Bwrdd ei bod wedi gwneud cais ffurfiol ac wedi cael Cyfarwyddyd Gweinidogol ynglŷn â'r taliadau arfaethedig i ymgynghorwyr y GIG i'w gosod yn erbyn treth. Nid oedd yr hyn a gynigwyd gan y Gweinidogion yn gyson â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ynglŷn â materion treth. Byddai'r camau a gynigwyd yn sicrhau bod dulliau gweithredu GIG Cymru yn unol â rhai GIG Lloegr lle bu hefyd angen am Gyfarwyddyd Gweinidogol.
- 7.2** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai dyma oedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol cyntaf i'w gyhoeddi ers dechrau datganoli. Roedd yn deall ac yn gwerthfawrogi pam i'r Gweinidogion deimlo rheidwydd i weithredu fel y gwnaethant, ac roedd y Gweinidogion yn deall ei sefyllfa hi fel y Swyddog Cyfrifyddu. Roedd y trafodaethau gyda'r Gweinidogion ar y mater hwn wedi bod yn adeiladol ac yn gyfeillgar.

8. Pwyllgor Tâl

- 8.1** Rhoddodd Jeff Farrar ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â chyfarfod diwethaf y Pwyllgor Tâl ar 6 Rhagfyr. Nododd fod y drafodaeth wedi canolbwyntio ar enwebiadau Anrhydeddau, swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil ac aelodaeth. Byddai trafodaeth yn ystod y cyfarfod heddiw ynglŷn ag a ddylai'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol fod yn aelodau rheolaidd.

Camau yn codi yn y cyfarfod o'r Bwrdd

CAM GWEITHREDU	SWYDDOG ARWEINIOL	SEFYLLFA DDIWEDDARA F
CAM GWEITHREDU 1 Anfon rhestr o'r rhai a fydd yn mynychu'r sesiwn herio at y Cyfarwyddwyr Anweithredol i'w hadolygu	Ysgrifenyddiaeth	Wedi ei gau
CAM GWEITHREDU 2 Trefnu cyfarfod briffio rhwng y Cyfarwyddwyr Anweithredol a thîm y Rhaglen Ddeddfwriaeth, Helen Lentle a Dylan Hughes.	Ysgrifenyddiaeth	Wedi ei gau

CAM GWEITHREDU 3 Ar ôl y sesiwn herio gyntaf ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol, ystyried a fyddai ail sesiwn o fudd.	Y Cyfarwyddwyr Anweithredol	Wedi ei gau
CAM GWEITHREDU 4 Y Cyfarwyddwyr Anweithredol i roi adborth i'r Ysgrifennydd Parhaol ar ganlyniadau'r sesiynau herio ac ar sut y gwnaethant ychwanegu gwerth at y broses.	Y Cyfarwyddwyr Anweithredol	Wedi ei gau. Cyfarfodydd wedi'u trefnu rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol

Camau gweithredu yn cael eu dwyn ymlaen o 6 Rhagfyr 2019

CAM GWEITHREDU	SWYDDOG ARWEINIOL	SEFYLLFA DDIWEDDARAF
CAM GWEITHREDU 1: Cylch gorchwyl pob pwyllgor i gael ei ddiwygio i sicrhau proses adrodd symlach a chyson o ran rheoli risg yn Llywodraeth Cymru drwyddi draw.	Clare Colette/ Ysgrifenyddiaeth	Wedi ei gau
CAM GWEITHREDU 2: Cyfarwyddwyr Cyffredinol i roi gwybod i Gyfarwyddwyr Anweithredol am heriau allweddol yn eu maes a'u gwahodd i gyfarfodydd Byrddau Polisi.	Cyfarwyddwyr Cyffredinol	Wedi ei gau
CAM GWEITHREDU 3: Ychwanegu eitem agenda ar yr Adroddiad Blynyddol unwaith y mae wedi'i gyhoeddi yn gynnar	Ysgrifenyddiaeth	I'w roi gerbron y Bwrdd nesaf

yn 2020.		
CAM GWEITHREDU 4: Trefnu'r sesiynau Herio Anweithredol i sicrhau bod y cyfarfodydd yn y calendr cyn gynted â phosibl.	Ysgrifenyddiaeth	Wedi ei gau
CAM GWEITHREDU 5: Cynnwys eitem agenda sefydlog ar adborth o sesiynau herio ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth	Wedi ei gau